## ATODLEN 4

Rheoliad 6

## Y SAFONAU MAETH AR GYFER CINIO YSGOL MEWN YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD A GYNHELIR

**1.** Yn yr Atodlen hon—

mae i "cinio ysgol cyfartalog" ("*average school lunch*") yr ystyr a roddir iddo gan baragraff 2 (1);

ystyr "grŵp o ysgolion" ("*group of schools*") yw dwy neu fwy o ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion o'r un ystod oedran ac sydd, pan fo'r ysgolion yn darparu addysg uwchradd, i gyd yn ysgolion cydaddysgol, i gyd yn ysgolion un rhyw i fechgyn neu i gyd yn ysgolion un rhyw i ferched;

ystyr "maethyn" ("*nutrient*") yw unrhyw sylwedd a restrir yn Nhabl C.

ystyr "siwgrau anghynhenid nad ydynt yn deillio o laeth" ("*non-milk extrinsic sugars*") yw unrhyw siwgrau nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn muriau celloedd, ac eithrio lactos mewn llaeth a chynhyrchion llaeth; ac

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid cyfrifo'r cinio ysgol cyfartalog ar gyfer ysgol neu grŵp o ysgolion yn unol â'r fformiwla canlynol:—

$$\left(A/B\right)/C$$

Ac—

"A" yw cyfanswm y cynnwys o ran egni a maethynnau a ddarperir ym mhob cinio ysgol a weinwyd yn ystod wythnos ysgol;

"B" yw nifer amcangyfrifedig y ciniawau ysgol a weinwyd i ddisgyblion yn ystod yr wythnos ysgol honno; ac

"C" yw nifer y diwrnodau yn yr wythnos ysgol.

(2) Rhaid i grŵp o ysgolion ddefnyddio'r fformiwla yn is-baragraff (1) os yr un peth yw'r cinio ysgol a ddarperir ym mhob ysgol yn y grŵp.

**3.** Rhaid i ginio ysgol cyfartalog ddarparu—

(a) swm o egni y mae'n rhaid iddo fod naill ai'r un peth â'r ffigur a welir yn Nhabl C neu o fewn 5% i'r ffigur hwnnw;

(b) dim mwy na'r uchafsymiau o fraster, braster dirlawn, siwgrau anghynhenid nad ydynt yn deillio o laeth a sodiwm a welir yn Nhabl C; ac

(c) o leiaf yr isafswm o'r holl faethynnau eraill a welir yn Nhabl C.

**TABL C**

| **Maethyn** | **Isafswm neu Uchafswm** | **Cinio ysgol a ddarperir mewn ysgolion cynradd** | **Cinio ysgol a ddarperir mewn ysgolion uwchradd** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cydaddysgol** | **Un rhyw i ferched** | **Un rhyw i fechgyn** |
| Egni (cilocaloriau) | +/- 5% | 530 | 646 | 577 | 714 |
| Cyfanswm y braster (gramau) | Uchafswm | 20.6 | 25.1 | 22.5 | 27.8 |
| Braster dirlawn (gramau) | Uchafswm | 6.5 | 7.9 | 7.1 | 8.7 |
| Cyfanswm carbohydrad (gramau) | Isafswm | 70.6 | 86.1 | 77 | 95.2 |
| Siwgrau anghynhenid nad ydynt yn deillio o laeth (gramau) | Uchafswm | 15.5 | 18.9 | 16.9 | 20.9 |
| Ffibr (gramau) | Isafswm | 4.2 | 5.2 | 4.6 | 5.7 |
| Protein (gramau) | Isafswm | 7.5 | 13.3 | 12.7 | 13.8 |
| Haearn (miligramau) | Isafswm | 3 | 4.4 | 4.4 | 3.4 |
| Sinc (miligramau) | Isafswm | 2.5 | 2.8 | 2.7 | 2.8 |
| Calsiwm (miligramau) | Isafswm | 193 | 300 | 240 | 300 |
| Fitamin A (microgramau) | Isafswm | 175 | 245 | 210 | 245 |
| Fitamin C (miligramau) | Isafswm | 10.5 | 14 | 14 | 14 |
| Ffolad (microgramau) | Isafswm | 53 | 70 | 70 | 70 |
| Sodiwm (miligramau) | Uchafswm | 499 | 714 | 714 | 714 |